

## Gwybodaeth i Gleifion

**Torri Codenni**

**Uned Llygaid**

**Ni ddylai'r mân lawdriniaeth a gewch heddiw achosi unrhyw broblemau i chi pan fyddwch yn dychwelyd adref. Gobeithio y bydd y daflen hon yn ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych ar ôl i chi ddychwelyd adref.**

I'n galluogi i berfformio eich llawdriniaeth caiff ychydig bach o anesthetic lleol ei chwistrellu i mewn i'ch amrant. Gall gymryd hyd at ddwyawr i dreulio.

Mae'n bosibl y bydd hyn braidd yn anghysurus ar ôl iddo dreulio. Dylech leddfu hyn trwy gymryd poenladdwyr gwan megis Parasetamol.

Dylai unrhyw waedu sy'n digwydd o gwmpas yr ardal stopio'n eithaf cyflym a gall unrhyw ludiogrwydd a achosir gan waed sych gael ei waredu drwy ddefnyddio gwlân cotwm wedi'i roi mewn dŵr berw sydd wedi oeri. Sychwch y llygad gan symud o ochr allanol y llygad tuag at y trwyn.

Os, ar ôl eich llawdriniaeth, y cewch ormod o boen na all poenliniarwyr ei gwella, neu os oes unrhyw waedu'n aildechrau neu'n parhau, **ffoniwch am gyngor**.

### **O le alla i gael mwy o gyngor?**

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch cysylltwch â'r:-

Adran Cleifion Allanol Llygaid ar:- ffôn:- 01633 656268

Rhwng 8.30am a 5.00pm

Neu

**Y tu allan i'r oriau hyn cysylltwch a'r meddyg offthalmoleg ar alwad drwy'r switsfwrdd**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /  
This document is available in English".**